

SESIWN 5: ADDASU I NEWID HINSAWDD

Ystod oed: 11 – 14 oed

<p>Amlinelliad</p> <p>Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae rhai cymunedau o gwmpas y byd yn addasu i effeithiau newid hinsawdd. Byddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp i ystyried ffyrdd posibl y gall cymuned yn Bangladesh addasu i llifogydd. Yn olaf, byddant yn defnyddio astudiaeth achos i ymchwilio mewn mwy o fanylder sut mae un gymuned yn Bangladesh yn addasu i effeithiau newid hinsawdd.</p>		
<p>Amcanion dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall beth mae addasu i newid hinsawdd yn ei olygu. Disgrifio rhai ffyrdd mae cymunedau o gwmpas y byd yn addasu i effeithiau newid hinsawdd. 	<p>Canlyniadau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn adnabod ffyrdd penodol y mae unigolion a chymunedau yn addasu i effeithiau newid hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn gweithio gydag eraill i chwilio ac adolygu ffyrdd posibl y gall cymuned yn Bangladesh addasu i lifogydd. 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth yw addasu i newid yn yr hinsawdd? Sut mae pobl a chymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd? Beth fydddech chi'n gwneud? Sut mae pobl a chymunedau yn addasu i effeithiau newid hinsawdd? Sut mae Oxfam yn helpu cymunedau i addasu i effeithiau newid hinsawdd? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>: sleidiau 8 – 24. Tafenni adnoddau: <ul style="list-style-type: none"> <i>Llifogydd yn Bangladesh.</i> <i>Stori Sahena – Astudiaeth achos.</i> Taflen weithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <i>Stori Sahena – Cardiau ysgogi.</i> <i>Stori Sahena – Penawdau.</i> 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr</p> <p>CA3 Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Daearyddiaeth ddynol a ffisegol Dylai disgyblion gael eu haddysgu i ddeall sut mae prosesau dynol a ffisegol yn rhyngweithio i ddylanwadu ar dirweddau, amgylcheddau a'r hinsawdd, a'u newid; a sut mae gweithgaredd pobl yn dibynnu ar systemau naturiol sy'n gweithredu'n effeithiol. <p>CA3 Dinasyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai disgyblion gael eu haddysgu am y rolau y mae sefydliadau cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol yn eu chwarae mewn cymdeithas, a'r ffyrdd y gall dinasyddion weithio gyda'i gilydd i wella eu cymunedau. 	<p>Cymru</p> <p>CA3 Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall lleoedd, amgylchiadau a phrosesau: egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau yn cydberthyn. Ymchwilio: dadansoddi a gwerthuso syniadau a thystiolaeth, ateb cwestiynau a chyfiawnhau casgliadau. <p>ADCDF: Newid Hinsawdd, Dewisiadau a Phenderfyniadau</p>	<p>Yr Alban</p> <p>Astudiaethau Cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> Drwy gymharu anheddu a gweithgaredd economaidd mewn dwy dirwedd gyferbyniol, gallaf ddod i gasgliadau ynglŷn â sut mae tirweddau yn dylanwadu ar weithgaredd pobl. Gallaf egluro fy nghanfyddiadau yn glir i eraill. <p style="text-align: right;">SOC 3-13a</p> <ul style="list-style-type: none"> Drwy archwilio rôl a gweithrediadau sefydliadau rhyngwladol dethol, gallaf werthuso pa mor effeithiol ydynt wrth gyflawni eu hamcanion. <p>SOC 4-19b</p>



Gweithgaredd 5.1: Beth fydddech chi'n gwneud? (40 munud)

Noder bod y gweithgaredd hwn wedi'i addasu o ddeunydd dysgu 'Beth mae Oxfam yn gwneud?':

<http://www.oxfam.org.uk/education/resources/what-does-oxfam-do>

- Dangoswch sleid 9 yn sioe sleidiau *Her hinsawdd B*. Trafodwch syniadau'r dysgwyr am beth mae addasu i newid hinsawdd yn ei olygu. Eglurwch fod addasu i newid hinsawdd yn golygu ymateb i effeithiau newid hinsawdd, i leihau niwed i bobl, planhigion, anifeiliaid a systemau naturiol. Mae Oxfam eisoes yn gweithio gyda chymunedau o gwmpas y byd i'w helpu i addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Dangoswch sleidiau 10 i 12 sydd ag enghreifftiau o sut mae Oxfam yn gweithio gyda chymunedau lleol i'w cynorthwyo i baratoi ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Dangoswch sleid 13. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar neu chwech ac eglurwch fod angen iddynt ddychmygu eu bod yn gweithio i Oxfam yn Bangladesh. Eglurwch fod y rhan fwyaf o weithwyr Oxfam yn dod o'r wlad lle maent yn gweithio a bod Oxfam yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chymunedau lleol i baratoi ar gyfer effeithiau trychinebau naturiol, a mynd i'r afael â'r effeithiau hynny.
- Rhowch gopi o *Llifogydd yn Bangladesh* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y daflen a thrafod atebion i'r problemau sy'n cael eu mynegi yn yr 'her i'r grŵp' ar y daflen waith.
- Gofynnwch i'r grwpiau adrodd eu syniadau i'r holl ddsbarth ac wedyn, heb dreulio gormod o amser, dangoswch sleidiau 14 i 17 sy'n rhoi enghreifftiau o sut mae Oxfam wedi gweithio gyda chymunedau lleol i ddatrys problemau sydd wedi eu hachosi gan lifogydd yn Bangladesh.
- Gan ddal i ddychmygu eu bod yn weithwyr Oxfam yn defnyddio arbenigedd sefydliadau a chymunedau lleol, gofynnwch i'r dysgwyr werthuso eu hatebion eu hunain ac atebion Oxfam i'r problemau ac wedyn dewis y ddau neu dri syniad maent yn eu hoffi fwyaf. Efallai yr hoffent restru manteision ac anfanteision i'w helpu i benderfynu.

Gwahaniaethu

Ychydig yn haws: Gofynnwch i'r grwpiau ddewis un neu ddau o broblemau yn unig o'r rhestr ar Llifogydd yn Bangladesh.

Gweithgaredd 5.2: Stori Sahena (20 munud)

- Dangoswch sleidiau 18 i 24. Mae'r sleidiau hyn yn cyflwyno Sahena Begum o bentref Kunderpara yn ardal Gainbandha yn Bangladesh.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri. Rhowch gopiau o *Stori Sahena – Cardiau ysgogi a Penawdau* i bob grŵp.
- Eglurwch mai prif amcan y gweithgaredd hwn yw canfod mwy am rai o'r ffyrdd y mae'r gymuned hon yn cael ei heffeithio gan newid hinsawdd ac yn addasu i'r effeithiau. Gofynnwch i'r dysgwyr dorri o amgylch y cardiau ysgogi a'u darllen. Dylent wedyn eu didoli i dri grŵp yn ôl y penawdau hyn:
 - Pennawd 1: Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar gymuned Sahena?
 - Pennawd 2: Beth mae Sahena yn gwneud i helpu ei chymuned i addasu i'r newidiadau sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd?

- Pennawd 3: Sut mae Oxfam yn helpu cymuned Sahena i addasu i'r newidiadau a achosir gan newid hinsawdd?
- Gall y dysgwyr benderfynu bod rhai o'r cardiau ysgogi yn addas i'r rhei o dan fwy nag un pennawd.
- Rhowch amser i'r dysgwyr rannu eu hatebion fel dosbarth cyfan.

Gwahaniaethu

Ychydig yn anoddach: Yn hytrach na didoli'r cardiau ysgogi, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r astudiaeth achos: Stori Sahena – Astudiaeth achos. Dylai'r dysgwyr liwio darnau perthnasol o'r testun â thri lliw gwahanol yn unol â'r penawdau uchod.

Syniadau pellach

- Dwedwch wrthynt fod llawer o'r storïau am sut y mae cymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd, a sut maent yn addasu, yn canolbwyntio ar ferched. Trafodwch gyda'r dysgwyr i weld a ydynt yn gallu meddwl pam felly.
 - Er bod holl bobl dlawd y byd yn agored i niwed gan newid hinsawdd a thywydd eithafol, mae merched yn aml yn fwy agored i niwed gan eu bod yn aml yn ysgwyddo baich trymach o ran cyfrifoldebau, ac yn fwy dibynnol ar adnoddau naturiol i wneud eu tasgau. Mae'r cyfrifoldebau hyn fel arfer yn cynnwys gofalu am blant a chyflawni tasgau sy'n aml yn dibynnu ar gael dŵr glân. Mae dynion yn aml mewn sefyllfa gryfach i ymdopi (hynny yw, yn llai agored i niwed) am fod ganddynt fwy o gyfle i fod yn rhan o economi arian parod. Mae gweithio gyda merched i wynebu'r heriau a ddaw i'w rhan gan y newid yn yr hinsawdd yn fuddiol i'r gymuned gyfan. Defnyddiwyd *Stori Sahena* yn fwriadol yng *Ngweithgaredd 5.2* i dynnu sylw at y ffaith bod merched yn aml yn cael eu heffeithio yn fwy na dynion gan newid hinsawdd.
 - Gall y dysgwyr ddefnyddio cadwyn *pam-pam-pam* i feddwl mwy am pam mai merched sydd yn aml yn fwyaf agored i niwed gan y newid yn yr hinsawdd.
 - I gael mwy o arweiniad ar ddefnyddio cadwyni *pam-pam-pam*, ewch i dudalen 8 o arweiniad Oxfam i *Getting Started with Global Citizenship*:
<http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides>
- Efallai yr hoffech ddangos y clip ffilm: *Sisters on the Planet: Bangladesh*. Mae'r clip yn para tua 6' 50" ac mae iddo isdeitlau. Mae'n rhoi fwy o wybodaeth am Sahena a'i rôl wrth arwain ymdrechion ei chymuned i addasu i amodau tywydd a hinsawdd yn Gaibandha, yng ngogledd-orllewin Bangladesh. *Noder bod y ffilm hon yn cynnwys noethni yn 6' 8" a dylai'r athrawon benderfynu os ydynt am ei defnyddio neu beidio.*
<http://www.oxfam.org.nz/what-we-do/issues/climate-change/take-action/sisters-on-the-planet#Bangladesh>
- Gall y dysgwyr hefyd wneud nodiadau o dan y tri phennawd yng *Ngweithgaredd 5.2* tra'n gwylio'r ffilm.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Bywydau Ifanc

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.

Llifogydd yn Bangladesh

Penderfynwch sut i gynorthwyo pentrefi sydd wedi cael llifogydd

Y Problem:

Llifogydd yn Bangladesh

Mae'r rhan fwyaf o Bangladesh ar dir isel, heb fod llawer yn uwch na lefel y môr ac mae llifogydd bob amser wedi bod yn gyffredin yma.

Wrth i hinsawdd y byd newid, mae'r llifogydd yn Bangladesh yn dod yn fwy difrifol ac maent yn digwydd yn amlach.

Mae'r bobl dlotaf fel arfer yn byw yn yr ardaloedd sydd fwyaf tebygol o ddiodef llifogydd.

Yr her i'ch grŵp:

Rydych yn gweithio i Oxfam. Eich gwaith chi yw gweithio gyda phobl i amddiffyn eu hunain rhag unrhyw lifogydd yn y dyfodol.

Sut mae datrys y problemau hyn?

- Pan mae llifogydd, gall dŵr yfed fynd yn gymysg â dŵr llifogydd budr a charthffosiaeth. Gall hyn wneud pobl yn sâl.
- Gall llifogydd ddifetha tai a chnydau gan adael pobl heb loches na bwyd.
- Mae'n bosibl na fydd pobl sy'n byw mewn pentrefi bach iawn ac anghysbell yn gwybod bod y llifogydd ar ddod.
- Mae'r hinsawdd yn newid, gan wneud y tywydd yn Bangladesh yn anoddach ei ragweld ac mae llifogydd yn fwy tebygol.

Cadwch mewn cof...

- Mae'n well os gallwch helpu pobl i helpu eu hunain.
- Yr atebion symlaf yn aml yw'r rhai mwyaf effeithiol.

Ffeil Ffeithiau Bangladesh

Enw:

Bangladesh

Prifddinas:

Dhaka

Cyfundir:

Asia

Poblogaeth:

157 miliwn

Cyfartaledd disgwyliad oes:

70 oed

Hinsawdd:

Mae gan Bangladesh hinsawdd monsŵn trofannol. Mae'r rhan fwyaf o law Bangladesh yn disgyn rhwng mis Mehefin a mis Medi..

Allryiadau CO² y pen yn 2012 (tCO²): 0.5

Data wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (data poblogaeth i'r miliwn agosaf)

Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd:

<http://data.worldbank.org/> (2012-2013)

Yr Atlas Carbon Byd-eang: <http://globalcarbonatlas.org/>



Clod: Amin/Oxfam
Rhagfyr 2007

Yn y llun hwn mae Sahena yn gwneud popty clai a all gael ei gario i dir uwch pe daw llifogydd. Dysgodd hyn gan ei mam. Meddai: "Mae pobl yn paratoi'n well rŵan, ond mae'r llifogydd yn gwaethygu. Mae'n llawer anoddach rŵan i ragweld pryd mae am fod yn boeth a phryd mae am fod yn oer."

Sahena - Llywydd Pwyllgor Merched sy'n paratoi at drychinebau – Bangladesh

Stori Sahena

Cardiau ysgogi

 <p>Mae Sahena yn ymweld â'i chymydog Miriam Begum. Gyda chymorth Oxfam a sefydliad partner lleol, GUK, mae Miriam wedi codi lefel ei thŷ i'w amddiffyn rhag llifogydd.</p>	 <p>Meddai Sahena na all ffermwyr mwyach ragweld y tymhorau. Mae'n oer pan ddylai fod yn boeth, ac yn boeth pan ddylai fod yn oer. Nid yw'r pentrefwyr yn gwybod mwyaf pa bryd yw'r amser gorau i blannu neu gynaeafu eu cnydau.</p>	 <p>Mae Oxfam wedi hyfforddi pobl ar sut i greu gerddi sy'n arnofio. Mae'r gerddi yn cael eu hadeiladu ar rafftau wedi'u gwneud o hiasinth dŵr.</p>	 <p>Bu Oxfam yn cynorthwyo cymunedau i sefydlu pwyllgorau sy'n helpu pobl cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Maent yn cwrdd yn wythnosol i gynllunio rhybuddion llifogydd a ffyrdd eraill i wella bywyd cymunedol.</p>	 <p>Fel llywydd y grŵp merched, mae Sahena yn gwrandao'n astud ar rybuddion llifogydd ar y radio fel bod gan ei chymuned amser i baratoi.</p>
 <p>Codwyd lefel llawr y toiled hwn gan y gymuned leol. Mae'n bwysig cadw toiledau a phympiau dŵr uwchben lefelau'r llifogydd i osgoi lledaenu afiechydon.</p>	 <p>Mae Oxfam yn darparu arian i brynu radios fel y gall y pentrefwyr wrando ar rybuddion llifogydd. Mae un radio yn gofalu am bedwar neu bump o bentrefi, gan gyrraedd bron i 300 o gartrefi.</p>	 <p>Sahena yn gorffen gwneud popty clai. Caiff y popty ei gadw'n sych ar dir uchel gyda bwyd a thanwydd os bydd rhybudd llifogydd.</p>	 <p>Mae stormydd a llifogydd wedi effeithio ar Bangladesh erioed. Ond mae newid hinsawdd yn golygu eu bod yn digwydd yn amlach a'u bod yn fwy difrifol. Mae pobl dlawd yn dod yn fwy agored i niwed gan eu heffaith.</p>	 <p>Mae'r grŵp merched yn trefnu fod pentrefwyr y gweithio gyda'i gilydd i godi lefel eu tai. Mae hyn yn helpu i gadw'r plant, yr henoed a'r anifeiliaid yn ddiogel yn ystod llifogydd.</p>

Lluniau gan: Amin/Oxfam; Golam Rabban/Oxfam; Mary Saunders/Oxfam; Peter Caton/Oxfam

Stori Sahena

Penawdau

Didolwch y *Cardiau Ysgogi* i dri grŵp o dan y penawdau hyn. Efallai y penderfynwch fod rhai o'r cardiau yn dod o dan fwy nag un pennawd.

Pennawd 1: Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar gymuned Sahena?

Pennawd 2: Beth mae Sahena yn gwneud i helpu ei chymuned i addasu i'r newidiadau sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd?

Pennawd 3: Sut mae Oxfam yn helpu cymuned Sahena i addasu i'r newidiadau sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd?

Stori Sahena

Mae Sahena Begum yn 26 mlwydd oed. Mae'n byw ym mhentref Kunderpara yn ardal Gainbandha yn Bangladesh. Symudodd ei theulu yma wedi i'w tŷ a'u tir blaenorol gael eu dinistrio gan lifogydd. Hwn yw'r nawfed tro iddynt symud *char* wrth geisio goroesi'r llifogydd. Mae Sahena yn briod â Kasim. Mae ganddynt ddau o blant, merch o'r enw Kajili (7), a mab o'r enw Suman (4).

Llwyddodd Sahena i gwblhau ei phumed radd yn yr ysgol ac wedyn rhoddodd orau iddi. Mae'n awr yn dymuno y buasai wedi medru gorffen ei haddysg.



Llun gan: Amin/Oxfam

“Dychmygwch beth fyswn i wedi gwneud pe byswn i wedi cael addysg. Mi fyswn i wedi medru cael swydd iawn...Byswn i wrth fy modd yn cael mynd yn ôl i'r ysgol a chario ymlaen o'r lle gadewais hi.”

Mae Sahena a'i gŵr yn llafurwyr dydd ac yn gofalu am eu caeau am fywoliaeth. Ffermwyr amaethyddol ydynt ac yn gwneud oddeutu 50-60 BDT (Taka Bangladesh – llai na £0.50) y dydd am y dyddiau maent yn gweithio. Nid oes digon o waith sy'n talu iddynt bob dydd.

Mae llifogydd wedi bod yn rhan o fywyd erioed yma. Ond yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r glaw *monsŵn* blynyddol wedi bod yn anoddach ei ragweld ac yn llawer trymach. Cred llawer bod hyn yn ganlyniad i newid hinsawdd.

Yn Bangladesh, merched sydd fel arfer yn casglu dŵr a thanwydd, yn tyfu a pharatoi bwyd, ac yn gofalu am eu teuluoedd. Mae'r holl dasgau hyn yn llawer anoddach pan mae'r llifogydd yn dod. Sahena yw llywydd y pwyllgor merched lleol. Mae'n helpu'r merched – a felly'r gymuned ehangach – i addasu a pharatoi at lifogydd.

“Os yw merched yn ymwybodol, yna gall teuluoedd gael eu harbed rhag unrhyw golledion. Gall afiechydon gael eu hosgoi, gall anifeiliaid gael eu hachub, gall plant dderbyn gofal iawn a gall y merched gael eu harbed rhag mwy o ddiodefaint.”

Mae aelodau'r grŵp merched hwn wedi dysgu adeiladu poptai clai cludadwy, a gaiff eu storio wedyn mewn lle uchel gyda phren i'w ddefnyddio fel tanwydd. Maent wedi dechrau tyfu a chadw llysiau. A chan weithio gyda sefydliad partner lleol Oxfam, GUK, maent wedi dechrau codi tai i fod yn uwch na lefelau'r llifogydd. Mae hyn yn golygu y gall da byw ac eiddo gael eu hachub yn nhymor y monsŵn. Fel llawer o bobl, mae Sahena wedi colli popeth yn y llifogydd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae GUK hefyd wedi rhoi radio i Sahena, fel pan fo rhybuddion am lifogydd yn cael eu darlledu, gall drefnu pwyllgor pentref yn syth a lledaenu'r gair. Mae wedyn yn hebrwng plant, yr henoed ac unrhyw un sydd yn sâl i'r lloches ar lefel uwch y bu hithau'n helpu i'w godi. Rhyw ddeg munud yw hyn ar droed.

Mae Sahena yn gwbl benderfynol y bydd pethau'n wahanol. Eglurodd, “Mae'r ffaith ein bod wedi dod at ein gilydd i ffurfio'r grŵp hwn yn achos balchder i ni ferched. Dydyn ni ddim wedi ein geni i ddiodef. Rydyn ni wedi ein geni i frwydro.”

Geiriau allweddol

Monsŵn: Gwynt tymhorol sy'n dod â glaw i ardaloedd De a De-ddwyrain Asia.

Char: Gair Bengali yw *char* sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ynys wedi ei ffurfio mewn afon. Mae cannoedd o *char* yn afonydd Bangladesh. Maent ar dir isel ac felly mewn perygl o lifogydd.